



At: Bob Pennaeth Cynllunio

26 Mai 2017

Annwyl Gyfaill

Cefnogi'r Economi gyda'r Hwyr a'r Egwyddor Cyfrwng Newid

Ar 19 Mai, cyhoeddais fy mod yn bwriadu diwygio Polisi Cynllunio Cymru er mwyn cynnig rhagor o gefnogaeth i'r economi gyda'r hwyr ac, yn benodol, er mwyn diogelu lleoliadau cerddoriaeth fyw. Bydd polisi cynllunio cenedlaethol yn cael ei ddiwygio er mwyn cynnwys cyfeiriad clir a phenodol at egwyddor '**cyfrwng newid**' a dylai awdurdodau cynllunio lleol ddechrau ei defnyddio ar unwaith os yw'n ystyriaeth berthnasol.

<http://gov.wales/newsroom/planning/2017/170519-updated-planning-policy-to-strike-a-chord-with-live-music-fans/?skip=1&lang=cy>

Mae'r polisi sydd yn **Polisi Cynllunio Cymru** ar hyn o bryd yn dweud eisoes na ddylid cyflwyno mathau newydd o ddefnydd mewn ardal heb ystyried natur y mathau o ddefnydd sydd ynddi yn barod. O dan egwyddor cyfrwng newid, os bwriedir cyflwyno datblygiadau newydd neu fathau newydd o ddefnydd ger busnes sy'n bodoli eisoes, megis lleoliad cerddoriaeth fyw, cyfrifoldeb y datblygwr yw sicrhau bod ffyrdd o fynd i'r afael â swm ac o'i liniaru yn cael eu cyflwyno gyda'r cynigion a sicrhau hefyd fod modd rhoi'r mesurau hynny ar waith.

Mae PCC yn annog caiff awdurdodau lleol i ystyried a yw defnydd arfaethedig yn gydnaws mewn ardal a chânt gynnwys camau diogelu priodol yn eu cynlluniau datblygu lleol os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny. Bydd y diwygiadau i PCC yn ychwanegu at hynny ac yn caniatáu i ardaloedd gael eu dynodi'n ardaloedd o arwyddocâd diwylliannol i gerddoriaeth drwy gyfwng y cynlluniau datblygu lleol.

Mae'r newidiadau hyn yn cael eu cyhoeddi yn awr am fod yr heriau sy'n wynebu'r economi gyda'r hwyr yn dod yn fwyfwy amlwg ac am fod angen dybryd i gadw'r ddysgl yn wastad

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhwng darparu cartrefi, diogelu lleoliadau cerddoriaeth fyw a sicrhau iechyd a llesiant trigolion lleol. Mae angen i'r nodweddion gwahanol sy'n rhoi eu hunaniaeth i leoedd gael eu cydnabod yn llawn wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac, os gall mesurau i liniaru sŵn gynnig ateb priodol, mae'n rhaid i fesurau o'r fath gael eu rhoi ar waith. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl faterion perthnasol yn cael eu hystyried mewn ffordd briodol a thrwyadl.

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end of the name.

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs